# Rheolwr Cyflogaeth Chymorth

## Swydd-Ddisgrifiad –

| | |
|---|---|
| Lleoliad | Lleoliadau amrywiol ledled Ceredigion, Powys, Sir Gâr a Sir Benfro. Mae trefniadau gweithio Hybrid ac o Adref ar gael. |
| Yn Adrodd I | Antur Cymru |
| Telerau a hyd y Cytundeb | Llawn Amser hyd y 30ain Tachwedd 2029 |
| Cyflog | £34,000 y flwyddyn |

**Trosolwg o'r Bartneriaeth**

Menter uchelgeisiol bum mlynedd yw Porth Gwyrdd wedi'i dylunio i ysbrydoli, ymgysylltu a chefnogi pobl 16-30 oed sydd ar y cyrion yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i mewn i yrfaoedd gwyrdd, cynaliadwy. Mae'r prosiect wedi'i gydgynhyrchu gyda ac er mwyn pobl ifanc sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol, yn enwedig menywod, y rheiny sydd ar gyrion addysg a chyflogaeth, ar incwm isel, ac yn byw mewn ardaloedd gwledig. Arweinir y bartneriaeth gan Foothold Cymru, mewn partneriaeth ag Antur Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, a PLANED, gan weithio ledled Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

### Ynglŷn â'r Gronfa a'i Uchelgais

Ariennir prosiect Porth Gwyrdd gan Raglen Gyrfaoedd Gwyrdd Cronfeydd Segur Llywodraeth Cymru a'i reoli gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yng Nghymru. Nod y gronfa yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o yrfaoedd gwyrdd ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n anabl neu o gymunedau ethnig amrywiol.
- Cefnogi'r bobl ifanc hyn i fewn i yrfaoedd gwyrdd trwy ddatblygu sgiliau, profiad gwaith, a chyflogaeth hirdymor.
- Paratoi cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cynhwysol.

Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND

- Rhannu gwersi er mwyn dylanwadu ar bolisi ac arferion, gan yrru arloesedd a chynhwysiant yn economi werdd Cymru a thu hwnt.

## Pwrpas y Rôl

Bydd y Cynghorydd Busnes yn Antur Cymru yn chwarae rôl bwysig ym Mhrosiect Gyrfaoedd Gwyrdd Porth Gwyrdd, gan arwain gweithgareddau ymgysylltu a chefnogi busnesau cymorth ledled Sir Gâr, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys. Bydd y Cynghorydd yn recriwtio, hyfforddi, a chefnogi cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd gyrfaoedd gwyrdd cynhwysol i bobl ifanc 16–30 oed, yn enwedig rheiny sy'n anabl a/neu o gymunedau ethnig amrywiol. Mae'r rôl hon yn ganolog i adeiladu capasiti cyflogwyr, meithrin arferion gweithle cynhwysol, a sicrhau lleoliadau o ansawdd uchel a chynaliadwy yn yr economi werdd.

## Cyfrifoldebau Allweddol

<u>Ymgysylltu a Recriwtio Cyflogwyr</u>

- Adnabod, recriwtio, a datblygu perthynas â 350 cyflogwr ar draws y rhanbarth i gynnal lleoliadau a thâl, interniaethau, a chyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc mewn sectorau gwyrdd.
- Hybu'r achos busnes dros gyflogaeth gynhwysol a'r buddion o ymgysylltu â rhaglen Porth Gwyrdd.
- Paru pobl ifanc â lleoliadau addas yn seiliedig ar eu sgiliau, diddordebau, a'u hanghenion, mewn cydweithrediad â Hyfforddwyr Gwaith a phartneriaid prosiect.

<u>Cefnogaeth a Hyfforddiant Busnes</u>

- Darparu hyfforddiant i gyflogwyr ar gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant, gan gynnwys arferion gorau ar gyfer addasiadau yn y gweithle ac archwiliadau hygyrchedd.
- Darparu canllawiau ar weithredu recriwtio cynhwysol, cynefino, a rhaglenni mentora.
- Hwyluso hyfforddiant mentoriaid ar gyfer staff cyflogwyr er mwyn sicrhau cymorth effeithiol yn y gwaith i bobl ifanc.

<u>Parodrwydd am y Gweithle a Newid Diwylliant</u>

- Cynnal archwiliadau hygyrchedd cyffyrddiad ysgafn a rhoi argymhellion ar gyfer addasiadau rhesymol.

- Hwyluso digwyddiadau a fforymau rhwydweithio i gyflogwyr rannu arferion da a chydweithio ar fentrau cyflogaeth werdd.
- Annog a chefnogi cyflogwyr i ddod yn Hyderus o ran Anabledd ac i fabwysiadu Safonau Da ar gyfer Cyflogaeth Ieuenctid.

<u>Cefnogaeth Barhaol i Gyflogwyr</u>

- Gweithio fel pwynt cyswllt allweddol i gyflogwyr trwy gydol y broses lleoliad, gan ddarparu cyngor parhaus a datrys problemau pan fo angen.
- Cydweithio â Hyfforddwyr Gwaith i sicrhau integreiddio llwyddiannus yn y gweithle, adolygiadau cyson o gynnydd, a chymorth parhaol i gyflogwyr a phobl ifanc.
- Cyfeirio cyflogwyr at adnoddau a chyllid ychwanegol.

<u>Monitro ac Adrodd</u>

- Cadw cofnodion cywir o ymgysylltiad cyflogwyr, lleoliadau, a chanlyniadau gan ddefnyddio systemau prosiect CRM.
- Casglu adborth gan gyflogwyr i ddylanwadu ar welliant parhaus cynnig cefnogaeth busnes y prosiect.
- Cyfrannu at ledaenu gwersi ac arfer gorau trwy ddigwyddiadau, Llawlyfr y prosiect, a briffio polisi.

## Effaith a Chanlyniadau

- Cynyddu gallu cyflogwyr i gynnig cyfleoedd gyrfa werdd cynhwysol.
- Gwell hyder a sgiliau gan gyflogwyr wrth gefnogi talent ifanc amrywiol.
- Lleoliadau cynaliadwy, o ansawdd uchel a chanlyniadau cyflogaeth cadarnhaol i bobl ifanc.
- Cyfraniad at newid diwylliant a datblygu polisi o ran cyflogaeth werdd, gynaliadwy yng Nghymru wledig

## Adrodd a Chydweithio

- Adrodd i: Tîm Rheoli Prosiect Porth Gwyrdd (Antur Cymru)
- Gweithio'n agos gyda: Hyfforddwyr Gwaith, Swyddogion Ymgysylltu, Foothold Cymru, Menter Gorllewin Sir Gâr, Planed, a rhanddeiliaid eraill.

# Manyleb y Person

## Hanfodol

- Profiad blaenorol o ymgysylltu â busnesau, cefnogi cyflogwyr, neu rolau cynghori, yn ddelfrydol o fewn sgiliau, cyflogadwyedd, neu'r economi werdd.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth a rheoli perthynas ar draws sectorau.
- Profiad o weithio gyda phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol neu o gefndiroedd amrywiol.
- Dealltwriaeth gref o gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant yn y gweithle, gan gynnwys addasiadau rhesymol a hygyrchedd.
- Gallu darparu hyfforddiant a hwyluso gweithdai ar gyfer cyflogwyr.
- Sgiliau cyfathrebu, eirioli, a threfnu rhagorol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant.
-

## Dymunol

- Cynefindra â rhaglenni cyflogaeth gyda chefnogaeth.
- Sgiliau iaith Gymraeg.
- Dealltwriaeth o'r economi werdd ac arferion busnes cynaliadwy.

## Arall

- Maer partneriaeth wedi ymrwymo i weithio'n hyblyg a chefnogi llesiant staff.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar wiriad manylach DBS.
- Trwydded yrru lawn y DU a pharodrwydd i deithio ar draws y pedair sir sy'n rhan o'r prosiect.


Asedau Segur
Camau Cynaliadwy Cymru

Dormant Assets
Sustainable Steps Wales

Ddarperir gan
CRONFA GYMUNEDOL LOTERI GENEDLAETHOL

Delivered by
THE NATIONAL LOTTERY COMMUNITY FUND